**Yr Adran Cyfoeth Naturiol**
**Department for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Holl Brif Swyddogion Cynllunio

Dyddiad: 1 Mawrth 2016

Annwyl Gydweithiwr,

**DATBLYGIADAU O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL**

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu o'r ddeddfwriaeth ganlynol ddaeth i rym heddiw:

Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol

Mae Offerynnau Statudol wedi'u creu gan Lywodraeth Cymru a'u cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru sydd bellach yn ei gwneud yn ofynnol i bob cais cynllunio newydd ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru yn uniongyrchol. Mae'r offerynnau statudol hyn, yn fyr, yn cychwyn darpariaethau yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 sy'n berthnasol i Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, ac sy'n pennu beth yw Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac yn rhoi manylion y broses o wneud cais am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Bydd yn rhaid i geisiadau am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol sydd wedi dod i law yr awdurdodau cynllunio lleol cyn y dyddiad hwn barhau i gael eu penderfynu gan yr awdurdod cynllunio lleol yn y lle cyntaf. Pe byddai eich awdurdod cynllunio lleol yn derbyn cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol wedi'r dyddiad hwn, ni ddylech gofrestru eich cais a dylech ddweud wrth yr ymgeisydd gysylltu ag Arolygiaeth Gynllunio Cymru i drafod y weithdrefn gywir.

Chwe offeryn statudol sydd wedi'u creu:

**Gorchymyn Deddf Gynllunio (Cymru) 2015 a (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol) 2016**, ymysg pethau eraill, yn cychwyn darpariaethau yn Neddf Gynllunio (Cymru) 2015 sy'n berthnasol i Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Mae **Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodol a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016** yn nodi'r trothwyon a'r meini prawf ar gyfer y mathau o ddatblygiadau sy'n gymwys fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, a'r cydsyniad y mae'n rhaid gwneud cais amdano yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru o dan adran 62D Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r rheoliadau hefyd yn rhagnodi

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

English Enquiry Line: 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg: 0845 010 4400
Email: planning.directorate@wales.gsi.gov.uk
Ebost: planning.directorate@cymru.gsi.gov.uk

rhestr o gydsyniadau eilaidd y mae'n rhaid i ymgeisydd wneud cais amdanynt ar yr un pryd â'r cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, i'w hystyried gan Weinidogion Cymru.

Mae **Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffïoedd) (Cymru) 2016** yn pennu lefel y ffi sy'n gysylltiedig â swyddogaethau Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol o ran ceisiadau am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae'r rheoliadau yn pennu y ffioedd sy'n daladwy gan ddatblygwyr ar gyfer gwasanaethau cyn gwneud cais, sy'n cael eu darparu gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol, hysbysiad o gais arfaethedig am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, gwneud cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, gwneud newidiadau i geisiadau am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a ffioedd i awdurdodau cynllunio lleol gyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol.

Mae **Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016** yn darparu ar gyfer gwasanaethau cyn gwneud cais gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol, yn pennu pa swyddogaethau sydd i gael eu cyflawni gan yr Arolygiaeth Gynllunio, yn pennu'r weithdrefn ar gyfer archwilio ceisiadau am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer mynd i'r afael â chydsyniadau eilaidd i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Mae **Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016** yn pennu'r drefn ar gyfer delio â chais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, y mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ei dilyn a ffurf a chynnwys yr Adroddiadau ar yr Effaith Leol a gyflwynwyd gan awdurdodau cynllunio lleol a chynghorau cymuned.

Mae **Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymhwyso Deddfiadau Perthnasol) (Cymru) 2016** yn pennu'r adrannau perthnasol o Ddeddf Gwlad a Thref 1990 sydd i'w defnyddio yn y broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Mae canllawiau sy'n egluro'r broses o wneud cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol wedi eu cyhoeddi gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru ac ar gael ar: http://gov.wales/topics/planning/developcontrol/developments-of-national-significance/?lang=cy

Gorsafoedd cynhyrchu gwynt ar y tir dros 50MW

Ym mis Ionawr a Chwefror, cyflwynodd Llywodraeth y DU Orchymyn Cynhyrchu Gwynt ar y Tir (Eithriad) (Lloegr a Cymru) 2016 a Gorchymyn Cynllunio Seilwaith (Gorsafoedd Cynhyrchu Gwynt ar y Tir) 2016. Mae'r Gorchmynion, ddaeth i rym heddiw, yn gwneud newidiadau i'r broses o gydsynio ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu gwynt ar y tir, gan ei gwneud yn ofynnol i bob gorsaf cynhyrchu gwynt ar y tir dderbyn cydsyniad drwy'r system gynllunio (h.y. o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990), yn hytrach nag o dan drefn Deddf Cynllunio 2008.


Mae **Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodol a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2016** i'w trafod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru heddiw. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau i'r meini prawf penodedig ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol i gynnwys yr holl orsafoedd cynhyrchu gwynt ar y tir hynny sydd â chapasiti cynhyrchu o dros 50MW, yn ogystal â'r holl brosiectau cynhyrchu ynni rhwng 10MW a 50MW. Daw'r newid hwn i rym ar 2 Mawrth 2016. Byddaf yn eich hysbysu mewn ebost os caiff y Rheoliadau eu cymeradwyo gan y Cynulliad.

Rheoliadau Asesiadau Effaith ar yr Amgylchedd

Fel a grybwyllwyd yn fy llythyr blaenorol dyddiedig 1 Chwefror 2016, daw **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiadau Effaith ar yr Amgylchedd) (Cymru) 2016** i rym ar y dyddiad hwn.  Mae Rhan 8 y rheoliadau hyn yn berthnasol i geisiadau am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Cewch weld y ddeddfwriaeth uchod ac y Memoranda Esboniadol a'r Datganiad Ysgrifenedig ar gael ar http://assembly.wales/cy.

Yn gywir,



**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd**
**Llywodraeth Cymru**